Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Prentis Datblygu Nofio, Lefel 3 | Lleoliad: | De Cymru |
| Adran: | Chwaraeon | Cyflog: | Prentis Blwyddyn 2:<br>£18,725 - (18-20 oed)<br>£22,222 - (Oedran 21+) |
| Oriau Gwaith: | Llawn amser<br>(35 awr yr wythnos) | Cytundeb: | Tymor penodol, 13 mis |
| Yn adrodd i: | Swyddog Datblygu Nofio | Rheolaeth Llinell: | Dim |

Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd nofio cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gweithio tuag at brentisiaeth Datblygu Chwaraeon Lefel 3.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Gweithio tuag at brentisiaeth Datblygu Chwaraeon Lefel 3 ac unrhyw brosiectau penodol sydd angen.
2. Arwain / cynorthwyo sesiynau wythnosol a chlybiau yn ystod a thu allan i oriau Dysgu.
3. Arwain / cynorthwyo gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol.
4. Strwythuro sesiynau gyda datblygiadau wythnosol i'r cynnwys i gyd-fynd gyda'r gweithgareddau.
5. Cydweithio gyda staff yr adran ac ysgolion er mwyn annog plant a phobl ifanc i ymgymryd â chyfleoedd Chwaraeon yn ei ardal.
6. Cyfrifol am gofrestrau a data gweithgareddau.
7. Cydweithio a helpu datblygu gwirfoddolwyr a hyfforddwyr o fewn clybiau a digwyddiadau.
8. Hyrwyddo a chyflwyno defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau.
9. Bod yn barod i ddilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd.
10. Cefnogi digwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol o dan arweiniad yr adran digwyddiadau.
11. Marchnata clybiau a digwyddiadau'r ardal trwy greu posteri a chynnwys perthnasol.

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>2. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>3. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd<br>4. Bod yn barod i weithio oriau hyblyg gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau. | 1. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru<br>2. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.<br>3. Bydd profiad o hyfforddi o fantais. |

## Hyfforddiant

Fel rhan o'r brentisiaeth, bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynigir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â Fframwaith Prentisiaeth Lefel 3 Datblygu Chwaraeon.

Mae'r fframwaith yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- NVQ Lefel 3 mewn Datblygu Chwaraeon (QCF)
- Tystysgrif Arweinwyr Chwaraeon Uwch Lefel 3
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2

Yn ogystal, darperir yr hyfforddiant ychwanegol isod:

- Hyfforddiant a gwersi er mwyn dysgu neu gwella'ch sgiliau Cymraeg.
- Cymwysterau Chwaraeon Penodol
- Llythrennedd Corfforol
- Cymorth Cyntaf
- Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Iechyd a Diogelwch
- PREVENT
- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- DIT (Hyfforddiant Cynhwysol Anabledd)

Mae canran fawr o'r hyfforddiant yn digwydd yn y gweithle ac o fewn gweithdai a threfnir yn ystod oriau gwaith. Er hyn, disgwylir i brentisiaid gwblhau darnau sylweddol o'r gwaith cwrs tu allan i oriau gwaith yn rheolaidd. Bydd gan bob prentis mynediad at liniadur gwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae'r Adran Brentisiaethau yn falch iawn o allu cynnig cymorth arbennig er mwyn i bob prentis lwyddo. Rydym yn gweithio gyda phrentisiaid fel unigolion ac yn teilwra'r cymorth i weddu anghenion y prentis.

Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol yr adran gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau yn Ysgolion, y gymuned, cynlluniau gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

---

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ebrill 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

Gwiriadau Perthnasol: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).